

Mel ab Owain - Swyddog Datblygu Gogledd Cymru

Mae Mel wedi gweithio mewn Llywodraeth Leol a'r sector gwirfoddol am y rhan fwyaf o'i fywyd gwaith, yn ddiweddarach fel Clerc Tref Penmaenmawr yng Ngogledd Cymru ers 4 blynedd. Cyn hynny bu'n gweithio i sefydliadau mor amrywiol â'r Llysoedd Ynadon, Cyllid y Wlad, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r CAB.

Magwyd Mel yn siroedd Aberteifi a Chonwy ac enillodd radd o Brifysgol Cymru yng Ngholeg Prifysgol Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Wedi hynny enillodd gymhwyster CILCA.

Ar ôl nifer o flynyddoedd yn hyrwyddo 'Gwobr y Faner Werdd' yn llwyddiannus ar gyfer manau gwyrdd cyhoeddus a chymunedol yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru, dychwelodd Mel i lywodraeth leol fel Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol Cyngor Tref Penmaenmawr. Roedd Penmaenmawr yn gyngor blaengar ac mae Mel wedi bod yn rhan o nifer o fentrau i gymryd drosodd gwasanaethau gan y Cyngor Unedol gan gynnwys y llyfrgell, glanhau strydoedd ac uwchraddio'r promenâd. Mae wedi gweithio'n agos gyda grwpiau cymunedol lleol ar y rhan fwyaf o'r prosiectau hyn.

Yn fwy diweddar bu'n gweithio fel Clerc i Gyngorau Tremeirchion a Bodfari. Mae Mel yn gobeithio y gall ei brofiad a'i sgiliau nawr gael eu defnyddio i helpu cyngorau cymuned a thref ar draws Gogledd Cymru.